Dysgu parchu eraill

Cysyniadau: **Dangos parch, cyfeillgarwch, gwerthfawrogi, goddefgarwch, meddwl am eraill.**

Amcan: **Arwain y plant i barchu eraill.**

Cyfarpar: **Cardiau gydag wyth o eiriau gwahanol ar bob un (gweler cyflwyniad).**

Cyflwyniad:

● Cardiau ar y bwrdd. Gair gwahanol ar bob un: cwrtais, moesgar, bonheddig, parchu, anghwrtais, anfoesgar, anfoneddigaidd, amharchu. Dangos y pedwar cyntaf ac yna'r pedwar arall. Dangos mai geiriau croes i'w gilydd sydd yma.

Stori:

Unwaith roedd dyn anfoesgar iawn. Doedd ganddo ddim parch tuag at unrhyw un. Dim cwrteisi o gwbl. Doedd o byth yn dweud 'Bore da' wrth neb, hyd yn oed os oedden nhw'n dweud 'Bore da' wrtho fo. Doedd o byth yn gwenu ar neb. Os oedd rhywun yn cerdded i'w gyfarfod byddai ef yn mynd heibio iddyn nhw â'i ben i lawr gan wgu ar bawb.

Un diwrnod dyma Mr Anfoesgar yn mynd am dro i'r dref. Penderfynodd fynd ar y bws. Dyna lle roedd gwraig oedrannus yn llusgo i mewn i'r bws efo paciau trwm. Roedd hi wedi bod yn siopa. Ond tybed wnaeth Mr Anfoesgar geisio ei helpu? Na, dyma fo'n gwthio heibio iddi. Bu bron iddi â syrthio.

Dim ond un sedd wag oedd yn y bws. Roedd honno yng nghefn y bws. Rhuthrodd Mr Anfoesgar heibio'r hen wraig ac eistedd yn y sedd. Pan stopiodd y bws dyma Mr Anfoesgar yn gwthio heibio pawb er mwyn cael mynd allan o flaen pawb. Chlywodd neb mohono'n

dweud 'Esgusodwch fi' a ddywedodd o ddim 'Diolch yn fawr' wrth y gyrrwr chwaith.

Aeth yn syth i mewn i'r archfarchnad. Ar ôl iddo lenwi ei fasged â'i nwyddau cerddodd ymlaen i ffrynt y ciw. Dechreuodd y bobl oedd yn y ciw gwyno ond anwybyddodd Mr Anfoesgar bob un ohonyn nhw er i'r wraig oedd tu ôl i'r til ddweud wrtho, 'Esgusodwch fi, ond does gennych chi ddim hawl i wthio'n ddigywilydd i ffrynt y ciw. Ewch yn ôl.'

Ond gwrthododd Mr Anfoesgar symud cam. Roedd o'n benderfynol o aros yn ffrynt y ciw. Bu'n rhaid i'r wraig wrth y til gymryd ei arian er mwyn iddi gael gwared ag o.

Penderfynodd Mr Anfoesgar gerdded adref. Ond dechreuodd fwrw glaw yn drwm iawn. Agorodd ei ambarél. Tu ôl iddo clywodd sŵn cerdded. Trodd yn ôl i edrych. A dyna lle roedd un o'i gymdogion a'i gi yn brasgamu drwy'r glaw heb na chot law nag ambarél. Roedd o'n wlyb diferol.

Yn hytrach na chynnig iddo gerdded o dan yr ambarél efo fo, brasgamodd Mr Anfoesgar yn gyflymach gan sibrwd rhywbeth dan ei wynt.

O'r diwedd, cyrhaeddodd adref. Gwnaeth baned o de a theisen iddo'i hun ac eisteddodd yn gyffyrddus o flaen tanllwyth o dân. 'Wel,' meddai wrtho'i hun, 'mi ydw i wedi cael diwrnod diflas iawn. Wel tydi pobl yn anfoesgar, hunanol, anghwrtais, amharchus a digywilydd.'

Trafodaeth:

- Sut ddyn oedd Mr Anfoesgar?

- Beth oedd y pethau anfoesgar wnaeth o'r diwrnod hwnnw?

- Oni fyddai'n well iddo fod yn fwy cwrtais? Beth allai'i wneud i helpu'r rhai welodd o yn ystod y dydd?

- Pam oedd Mr Anfoesgar wedi cael diwrnod diflas?

Emyn: Nid yw neb yn neb: Canu Clod 298

Dyfyniad o'r Beibl:
Eich lle chi ydy bod yn garedig, yn dyner gyda'ch gilydd, a maddau i'ch gilydd. Effesiaid 4:32 beibl.net

Munud i feddwl:
Cofiwch barchu pawb, hyd yn oed os ydych chi'n credu nad ydyn nhw'n haeddu hynny. Alaric Hutchinson

Un ffordd o barchu pobl eraill ydi gwrando arnyn nhw.

Cofiwch eich parchu chi'ch hun a bydd eraill yn dangos parch tuag atoch. Confucius

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, rwyt ti eisiau i ni barchu pawb a bod yn garedig efo pawb. Mae hi'n anodd weithiau. Wnei di ein helpu i barchu a charu pawb? Amen.